LANEq232

# Cynorthwyo gyda gweithgareddau marchogaeth ar gyfer marchogion â gofynion arbennig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynorthwyo gyda gweithgareddau marchogaeth ar gyfer marchogion â gofynion arbennig.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cynorthwyo gyda'r gweithgareddau marchogaeth ar gyfer marchogion â gofynion arbennig trwy arwain y ceffyl i'r man gofynnol a chadw pellterau diogel, yn unol â'r cyfarwyddiadau
3. monitro marchogion trwy gydol y gweithgaredd hwn, yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. cysylltu a rhoi adborth i'r hyfforddwr a chynorthwywyr eraill trwy gydol y gweithgaredd
5. hysbysu'r hyfforddwr ynghylch unrhyw sefyllfaoedd peryglus yn brydlon
6. cyfathrebu gyda'r marchogion gan ddefnyddio dulliau priodol i gyd-fynd â gofynion unigol
7. dilyn cyfarwyddiadau'r hyfforddwr bob amser
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y mathau gwahanol o arwain a phryd y mae pob un yn briodol
3. y rhesymau pam y mae ochr gerdded yn angenrheidiol
4. y rhesymau pam y mae'n rhaid monitro marchogion yn barhaus
5. sut i adnabod straen a thrallod mewn marchgion a cheffylau a'r camau priodol i'w cymryd
6. y mathau sylfaenol o gyflyrau a gofynion arbennig y marchogion a sut maent yn effeithio ar y marchogaeth
7. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws a sut i ymdrin â nhw
8. pam y mae'n hanfodol cyfathrebu gyda'r marchogion a phobl eraill trwy gydol y gweithgaredd
9. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cynorthwyo marchogion gwahanol yn ystod tair taith/sesiwn farchogaeth

## Geirfa

Arwain:

- lefel un – arwain yn agos – yr arweinydd sy'n rheoli
- lefel dau – tennyn hwy– mae gan y marchog fwy o reolaeth
- lefel tri – mae'r arweinydd yno mewn argyfwng yn unig – mae'r marchog yn annibynnol bron

LANEq232

Cynorthwyo gyda gweithgareddau marchogaeth ar gyfer marchogion â gofynion arbennig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq232 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; marchogaeth; gofynion arbennig |